OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 638 (Cy.71)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2013

Gwnaed - - - - 18 Mawrth 2013
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 18 Mawrth 2013
Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2013.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 8 Ebrill 2013.

(3) Mae erthygl 2(c) yn dod i rym ar 29 Ebrill 2013.

(4) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) 1992

2. Mae paragraff (2) o erthygl 3 o Orchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) 1992(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (k)(**4**) yn lle "." rhodder ";";

(b) ar ôl is-baragraff (k) mewnosoder—

(**1**) 1992 p.14 .
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 1992/548. Diwygiwyd paragraff (2) gan O.S. 1994/543; O.S. 1995/619, O.S. 1996/636 ac O.S. 1997/656.
(**4**) Mewnosodwyd paragraff (k) gan O.S. 1996/636.